*This document is available in English* **Eitem 11 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2023-24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2023/24 i'r Aelodau. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar 31 Mai 2024. Cadarnhaodd y rhain wariant net o £44.3m gan gynnwys cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Adroddwyd cynnydd o £0.09m i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r sefyllfa archwiliedig yn aros yr un fath, er bod addasiad technegol i ailddosbarthu darpariaeth cyflogres fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi wedi'i wneud.

3 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i nodi yn Atodiad 2 ac mae'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae'r amserlenni hyn wedi'u hymestyn gan Lywodraeth Cymru hyd at 30 Tachwedd 2024.

**YSTYRIAETH GAN BWYLLGORAU ERAILL**

5 Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2023/24 i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Gorffennaf 2024.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r perfformiad a'r sefyllfa alldro a archwiliwyd fel y manylir yn Natganiad Cyfrifon 2023/24 (Atodiad 1);

(ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);

(iii) nodi'r llythyr cynrychiolaeth arfaethedig gan gynnwys y cam-ddatganiad heb ei gywiro; a

(iv) chadarnhau'r argymhelliad o gymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2023/24 fel y maent yn archwiliedig ac yn derfynol.

**CEFNDIR**

7 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, lluniodd yr Awdurdod ddatganiad o gyfrifon drafft erbyn 31 Mai 2024. Cyflwynwyd y datganiad o gyfrifon drafft i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2024 gydag adroddiad naratif eglurhaol. Mae'r datganiad o gyfrifon drafft wedi bod yn destun archwiliad allanol ac mae'r atodiadau'n cynnwys y fersiynau archwiliedig terfynol.

**GWYBODAETH**

**GWARIANT REFENIW**

8 Cyflwynwyd adroddiad ar berfformiad ariannol 2023/24 i aelodau'r Awdurdod yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Gorffennaf 2024. Roedd hwn yn cadarnhau sefyllfa alldro drafft o wariant net o £44.3m gan gynnwys cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

9 Mae'r sefyllfa archwiliedig derfynol yn cadarnhau gwariant net o £44.3m, er bod addasiad cyfrifyddu technegol wedi'i wneud i ailddosbarthu darpariaeth cyflogres o £0.47m fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Darperir yr adroddiad naratif wedi'i ddiweddaru ar dudalen xx o'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1, tudalen 7)

10 Nododd yr archwiliad nifer o addasiadau eraill y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith gyffredinol ar y sefyllfa a adroddwyd.

**Y FANTOLEN**

11 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2024, ac mae wedi'i chynnwys ar dudalen xx o'r Cyfrifon (Atodiad 1).

**Asedau sefydlog a benthyciadau**

12 Cadarnhaodd y cyfrifon archwiliedig terfynol fod gan yr Awdurdod

asedau sefydlog o £56.2m ar 31 Mawrth 2024, sy'n cynnwys eiddo, cerbydau ac offer.

13 Caniateir i'r Awdurdod fenthyca i ariannu asedau cyfalaf, ac ar 31 Mawrth 2024 gwerth archwiliedig y benthyciadau sy'n weddill oedd £17.9m, sy'n unol â'r terfynau a osodwyd gan yr Awdurdod.

**Rhwymedigaethau Pensiwn**

14 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi cyfrif am y rhwymedigaethau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'i gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff gwerth ymrwymiadau'r dyfodol ei gyfrifo gan actiwari pob cynllun, ac roeddent yn £231.6m ar ddyddiad y fantolen. Mae hyn yn cynnwys addasiad archwilio mewn perthynas â phrisiad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o £1.2m. Mae hwn yn faes cyfrifyddu hynod dechnegol ac roedd angen yr addasiad yn dilyn arweiniad pellach gan yr actiwari ac mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru.

**Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**

15 Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2024 oedd £9.1m a oedd yn cynnwys £1.6m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a £7.5m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Cafodd y polisi cronfeydd wrth gefn ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024.

**ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL**

16 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am ddarparu barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

17 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid yw Archwilio Cymru yn ceisio darparu sicrwydd absoliwt. Yn hytrach, mae'n ystyried a oes materion arwyddocaol a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan nodir gwall neu gamddatganiad, bydd Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen diwygio.

18 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig cyhoeddi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, a nodir y pethau canlynol:

- Nododd yr archwiliad nifer o ddiwygiadau y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr ac a oedd yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.  Nododd yr archwiliad ddau addasiad y mae angen eu hamlygu cyn cymeradwyo'r cyfrifon
- Gwnaed addasiad cyfrifyddu technegol i ailddosbarthu darpariaeth cyflogres o £0.5 miliwn fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi yn gysylltiedig â strwythur cyflog y diffoddwyr tân.
- Gwnaed newid o £1.2 miliwn i brisiad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn dilyn cyngor gan actiwari'r cynllun ac mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru, cafodd addasiad technegol ei brosesu i roi ystyriaeth i'r terfyn asedau pensiwn, yn unol ag IAS 19 ac IFRIC 14.

19 Nododd yr archwiliad un mater na chafodd ei gywiro, gwerth cyfanswm o £0.1 miliwn, a oedd yn ymwneud â dosbarthu dyledwyr a chredydwyr. Cododd y mater hwn oherwydd anghysondeb amseru, gan fod Cyfrifon Taladwy wedi cael eu gadael ar agor i sicrhau taliadau prydlon i Fusnesau Bach a Chanolig. Gan na fyddai'r addasiad wedi effeithio ar y fantolen nac wedi darparu unrhyw fudd i ddefnyddwyr y cyfrifon, fe'i gadawyd heb ei gywiro.

20 Roedd Adroddiad yr Archwiliad hefyd yn cynnwys y llythyr cynrychiolaeth terfynol.   Mae'r llythyr hwn yn darparu cynrychiolaeth gan y Cadeirydd a'r Trysorydd i gydnabod eu cyfrifoldebau ac i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y cyfrifon yn darparu darlun gwir a theg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC.  Mae ariannu'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Caiff y gyllideb ei phennu bob blwyddyn yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n |

| | |
|---|---|
| | briodol i'r Aelodau. |